



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – Crynodeb o'r  
ymatebion

**Ymgynghoriad ar ganllawiau statudol  
drafft ar gyfer cyrff llywodraethu ar  
bolisiau gwisg ysgol ac edrychiad  
disgyblion**

10 Mehefin 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn  
Saesneg.  
This document is also available in English.

# Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
3. Y camau nesaf

## Cyflwyniad

Nid oes deddfwriaeth addysg yng Nghymru sy'n cwmpasu gwisgo gwisg ysgol. Mae Adran 21 o Ddeddf Addysg 2002 yn nodi mai corff llywodraethu'r ysgol ddylai bennu ymddygiad ysgol a gynhelir. Mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu gynnal yr ysgol gyda golwg ar hyrwyddo safonau uchel o ran cyflawniadau addysgol a gallai hyn gynnwys rhoi polisi gwisg ysgol ar waith a allai hyrwyddo disgyblaeth mewn ysgolion a sicrhau bod disgyblion yn gwisgo'n briodol ar gyfer gweithgareddau dysgu.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog ysgolion yn frwd i roi polisi gwisg ysgol ar waith gan fod cymaint o fanteision o wneud hynny. Wrth gyflwyno polisi gwisg ysgol newydd neu ystyried newidiadau mewn gofynion gwisg ysgol, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gyrff llywodraethu ystyried materion cydraddoldeb, pa mor hawdd yw cael gafael ar wisgoedd a goblygiadau cost i deuluoedd ac ymgynghori'n eang â rhieni, disgyblion a grwpiau eraill ar bolisi gwisg ysgol newydd/diwygiedig.

Lle bo'r corff llywodraethu wedi cyflwyno polisi gwisg ysgol a/neu bolisi ynghylch edrychiad disgyblion, y pennaeth fydd yn gyfrifol am sicrhau y cedwir atynt fel rhan o'i gyfrifoldeb cyffredinol am redeg yr ysgol o ddydd i ddydd.

Mae gan Lywodraeth Cymru ganllawiau i ysgolion a chyrff llywodraethu ar bolisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion. Er bod disgwyl i gyrff llywodraethu ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno neu adolygu eu polisi gwisg ysgol, nid oes gan Lywodraeth Cymru bwerau i'w gorfodi. Mae penderfyniadau sy'n gysylltiedig â gwisg ysgol i'w gwneud, a hynny'n briodol, gan ysgolion a chyrff llywodraethu. Os nad yw rhieni'n fodlon â'r wisg ysgol sydd ar gael neu'r gost o brynu'r wisg gan gyflenwr penodol, gallant godi'r pryder hwn gyda chorff llywodraethu'r ysgol.

Mae canllawiau presennol Llywodraeth Cymru i gyrff llywodraethu ysgolion ar bolisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion a gyhoeddwyd yn 2011 yn anstatudol. Penderfynodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, wneud y canllawiau yn rhai statudol wrth geisio rhoi gwell cefnogaeth i gyrff llywodraethu wneud eu penderfyniadau ar fynediad, fforddiadwyedd a hyblygrwydd.

Mae'r pŵer i Weiniogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol wedi'i gynnwys yn adran 88 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 ac adran 175 o Ddeddf Addysg 2002. Er y caiff Gweinidogion Cymru ond cyhoeddi canllawiau statudol i'r corff llywodraethu o dan adran 88 o Ddeddf 2006, byddai angen i'r corff llywodraethu nodi'r egwyddorion a byddai'n rhaid iddynt ystyried unrhyw ganllawiau statudol a gyhoeddir gan Weiniogion Cymru o dan adran 88 Deddf 2006.

Lansiwyd ymgynghoriad ar 29 Tachwedd 2018, a ddaeth i ben ar 21 Chwefror 2019, yn ceisio barn ar ganllawiau statudol drafft Llywodraeth Cymru i gyrff llywodraethu ysgolion ar bolisiâu gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys pedwar cwestiwn penodol ynglŷn â'r canllawiau drafft:

- Ydych chi'n cytuno y dylai cyrff llywodraethu ysgolion ystyried fforddiadwyedd wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion?
- Ydych chi'n cytuno y dylai cyrff llywodraethu ysgolion ystyried argaeledd eitemau gwisg ysgol a mynediad atynt wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion?
- Ydych chi'n cytuno na ddylai polisiâu gwisg ysgolion wahaniaethu rhwng gwahanol eitemau o ddillad ar sail rhyw neu rywedd?
- Ydych chi'n cytuno y dylai cyrff llywodraethu ysgolion nodi'n glir eu hagwedd at amrywio eitemau gwisg ysgol yn sgil amodau tywydd eithafol wrth lunio eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion?

Roedd cwestiynau pellach yn gofyn i'r ymatebwyr ddweud p'un a oeddent o'r farn y gallai'r canllawiau gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg, a chafodd yr ymatebwyr hefyd eu gwahodd i wneud unrhyw sylwadau ychwanegol nad oedd y cwestiynau penodol eraill wedi ymdrin â nhw.

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Cafwyd **925** o ymatebion wedi'u cwblhau i'r ymgynghoriad. Ymatebion ar y cyd gan grwpiau fel cynghorau ysgol a sefydliadau trydydd parti oedd llawer o'r rhain, felly mae nifer y bobl a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad yn fwy mewn gwirionedd. Ymhlith yr ymatebwyr eraill roedd athrawon, llywodraethwyr ysgol, rhieni, sefydliadau a disgyblion. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion o blaid y canllawiau statudol drafft. Ni wnaeth pob ymatebydd sylwadau ar bob cwestiwn. Rhoddir crynodeb o'r ymatebion a detholiad o sylwadau, wedi'u grwpio yn ôl thema, isod:

Mae'r holl ddyfyniadau o ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u cyfieithu oni nodir yn wahanol.

### Ydych chi'n cytuno y dylai cyrff llywodraethu ysgolion ystyried fforddiadwyedd wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion?

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Cyfanswm	95%	2%	3%

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai cyrff llywodraethu ysgolion ystyried fforddiadwyedd wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion. Dywedodd llawer ohonynt mai llywodraethwyr ysgolion sydd yn y sefyllfa orau i ddeall y ddemograffeg leol a barnu beth yw cost fforddiadwy. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid geirio'r canllawiau'n gryfach yn y maes hwn, ac awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru gael pwerau o ran monitro a chydymffurfiaeth.

*“Rwy'n credu y dylai fod yn ofynnol iddynt wneud mwy nag “ystyried” hyn: dylai fod yn ofyniad diamod”*

*“Rydym hefyd yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n gyson p'un a yw ysgolion yn cydymffurfio â'i chanllawiau.”*

*“Mae'r canllawiau hefyd yn nodi, yn gwbl briodol, y ‘Bydd cyrff llywodraethu ysgolion yn ystyried canllawiau statudol newydd Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno neu adolygu eu polisi gwisg ysgol, fodd bynnag, ni fydd gan Lywodraeth Cymru bwerau i'w gorfodi’. Er bod hyn yn gywir, gall arwain at ganiatáu i gorff llywodraethu ddiystyru neu fychanu agweddau allweddol ar y canllawiau.”*

*“Pwy sy'n atebol ac a oes rôl i Estyn fel yr arolygydd ysgolion? Er bod cyfeiriad at y ffaith nad oes gan Lywodraeth Cymru bwerau i orfodi'r polisi, gall Llywodraeth Cymru wneud trefniadau i sicrhau y caiff cydymffurfiaeth ei monitro, p'un a wneir hyn yn fewnol neu gan gorff allanol. Rydym yn awgrymu y dylai trefniadau atebolrwydd gael eu gwneud yn*

*hysbys a'u rhoi ar waith ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â'r canllawiau statudol hyn ar ôl iddynt gael eu rhyddhau."*

*"Afraid dweud bod llywodraethwyr yn ystyried hyn, ond 'gwerth' yn hytrach na 'fforddiadwyedd' yw'r pwynt allweddol yma."*

*"Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu y dylai gwisg ysgol gael ei dewis yn seiliedig ar bris yn unig. Rwy'n credu y gall corff llywodraethu daro cydbwysedd synhwyrol."*

*"Mae hyn yn ymddangos yn synhwyrol. Y corff llywodraethu sydd yn y sefyllfa orau i wybod beth yw demograffeg y disgyblion"*

*"Rydym yn awgrymu y dylai'r canllawiau gael eu geirio'n gryfach."*

*"Mae'r cynigion a nodir yn y ddogfen yn ein calonogi ac rydym o'r farn bod Llywodraeth Cymru wedi nodi'r materion cywir y mae llawer o rieni a disgyblion wedi'u codi fel pryderon, ac yn gwybod yn glir pa ganlyniadau y disgwylir i gyrff llywodraethu ysgolion eu sicrhau wrth gyflawni eu dyletswyddau."*

*"Mae fforddiadwyedd yn bwysig iawn. Dylai costau gwisg ysgol fod mor rhesymol â phosibl a dylent gynnig gwerth da am arian yn yr hinsawdd economaidd anodd hon."*

*"Rhaid i'r corff llywodraethu fod yn gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol ynghylch fforddiadwyedd, gan ei fod yn y sefyllfa orau i ddeall cyd-destun ei ysgol ei hun."*

*"Os yw'r wisg ysgol yn ddrud, bydd hyn naill ai'n cyfyngu ar eu gweithgarwch (peidio â chymryd rhan mewn chwarae corfforol er enghraifft) neu, os na all rhieni brynu gwisg newydd oherwydd y costau uchel, yna bydd pobl ifanc yn edrych neu'n sefyll allan yn wahanol os byddant yn gwisgo hen wisg ag ôl traul arni."*

*"Mae'r rhestr o faterion y dylai pob corff llywodraethu eu hystyried mewn perthynas â chost wrth bennu ei bolisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion yn helaeth ac yn synhwyrol, ac mae'n nodi'r heriau y mae llawer o rieni'n eu hwynebu. Byddem yn gobeithio bod pob corff llywodraethu yn defnyddio'r rhestr hon fel 'rhestr wirio' ac yn cofnodi ei ystyriaethau mewn perthynas â phob mater. Hefyd, dylai pob penderfyniad a wneir gan gyrff llywodraethu mewn perthynas â chymryd camau i fynd i'r afael â fforddiadwyedd gael ei rannu â rhieni a disgyblion er budd tryloywder ac atebolrwydd."*

Un o'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg oedd mantais cael polisi gwisg ysgol o ran hybu cydraddoldeb ac ymdeimlad o gymuned. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru ystyried yr agweddau hyn ochr yn ochr â fforddiadwyedd gwisg ysgol. Dywedodd llawer o'r ymatebwyr bod polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion yn sicrhau bod myfyrwyr yn gyfartal, gan olygu nad oes angen prynu'r dillad ffasiynol diweddaraf. Hefyd, nododd llawer o'r ymatebwyr bwysigrwydd gwisg ysgol o ran pennu dyheadau ar gyfer myfyrwyr; hybu ymddygiad da a lleihau bwlio.

Cyfeiriodd sawl ymateb at gost gwisg ysgol. Cafwyd cymysgedd o sylwadau gyda rhai ymatebwyr o'r farn ei bod yn rhy ddrud, a hynny'n aml

Ile'r oedd ysgolion yn pennu nifer fawr o eitemau â brand yr ysgol arnynt, ac roedd eraill o'r farn bod prynu gwisg ysgol yn rhatach na phrynu eitemau nad ydynt yn wisg ysgol.

*"...Mae gwisg ysgol yn rhan o sefydlu ethos ysgol, gan gynnwys dyhead"*

*"Mae gwisg ysgol yn sicrhau cydraddoldeb rhwng disgyblion"*

*"Holl bwrpas gwisg ysgol yw hybu cydraddoldeb ac ymdeimlad o gymuned, felly dylai hyn fod wrth wraidd polisi gwisg ysgol pob ysgol."*

*"Mae gwisg ysgol yn hollbwysig i sefydlu a chynnal safonau sy'n galluogi tegwch a chyraddoldeb."*

*"Fel ffordd o atal disgyblion rhag beirniadu eraill na allant fforddio'r dillad ffasiynol diweddaraf a sicrhau cydraddoldeb, rwy'n croesawu gwisg ysgol."*

*"Mae'n helpu i wneud pawb yn gyfartal, i leihau bwllo ac, fel rhiant, mae'n lleihau'r gost dros y flwyddyn o gymharu â phlentyn yn gwisgo dillad arferol."*

*"Mae gwisg ysgol yn dda am ei bod yn sicrhau bod pob plentyn yn gwisgo'r un peth â'i gilydd, felly ni fydd plant o deuluoedd tlotach o dan anfantais. Nid yw'r costau mor uchel â hynny pan fyddwch yn ystyried bod y dillad yn cael eu gwisgo am flwyddyn gyfan."*

*"Dylai'r wisg ysgol fod yn smart a rhoi ymdeimlad o falchder i'r disgyblion yn eu hysgol. Mae'n helpu i bennu ethos a safonau. Mae gwisg ysgol yn cynnig gwerth da o ystyried y caiff ei gwisgo bob dydd."*

*"Rwy'n teimlo bod ysgol fy mhentyn yn ystyried fforddiadwyedd; mae mwy nag un cyflenwr ac mae cydraddoldeb y wisg yn wych ac yn rhesymol. Bydd un wisg yn para drwy gydol y flwyddyn yn hawdd. Mae fy siop gwisg ysgol hefyd yn cynnig cynllun cynilo a chadw er mwyn lledaenu cost y wisg. Mae hefyd yn llawer rhatach na gorfod ymdrechu i brynu dillad brand. Mae diwrnod gwisg anffurfiol yn hunllef! Rwy'n credu bod gwisg ysgol yn atal bwllo am fod gan bawb yr un eitemau gan yr un cyflenwr"*

*"Mae'r ysgol uwchradd y bydd fy merch yn ei mynychu ym mis Medi yn mynnu bod y plant yn gwisgo eu trowsusau a sgertiau brand eu hunain, sy'n llawer drutach na'r wisg sydd ar gael mewn siopau. Mae'r dalgylch yn cynnwys ardal o amddifadedd cymdeithasol felly gallai hyn achosi caledi i'r teuluoedd y mae eu plant yn mynychu'r ysgol"*

Roedd ymatebwyr yn awyddus i dynnu sylw at y ffaith y gall fforddiadwyedd fod yn fater goddrychol ac y dylid ystyried gwerth am arian ac ansawdd wrth ystyried gwisg ysgol. Roedd llawer o'r farn, er y gall eitemau ar y stryd fawr ymddangos yn rhatach, bod eu hansawdd a'u gwydnwch yn golygu bod angen prynu rhai newydd yn eu lle yn amlach ac y dylid ystyried y gost sy'n gysylltiedig â hyn. Dywedodd ymatebwyr eraill nad oedd rhai eitemau â brand yr ysgol arnynt o ansawdd crystal ac nad

oedd dewis i siopa yn rhywle arall am eitemau sy'n gynaliadwy ac yn cynnig gwerth gwell.

*“Yn gyntaf, nid oes ffordd o fesur fforddiadwyedd. Yn hytrach na'i gysylltu ag incymau a chostau gwirioneddol, mae'r mesur yn seiliedig ar asesiad ysgol o effaith ataliol dybiannol. Mae hyn yn oddrychol iawn. Dylai cyrff llywodraethu ysgolion wybod faint o blant cymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n mynychu eu hysgol, ond mae'n llawer anos iddynt asesu faint y gall pob teulu fforddio ei wario ar wisg ysgol. Felly, mae'n bosibl i gyrff llywodraethu ysgolion danamcangyfrif y straen sy'n wynebu teuluoedd incwm isel wrth geisio mantoli eu cyllidebau er mwyn prynu gwisg ysgol. Mae'r fath fesur goddrychol hefyd yn golygu nad oes cysondeb ledled Cymru – gallai un ysgol dybio bod gwisg yn fforddiadwy tra nad yw ysgol arall o'r un farn.”*

*“Mae fforddiadwyedd yn ystyriaeth bwysig iawn wrth bennu gwisg ysgol. Fodd bynnag, mae angen pwysu a mesur hyn yn erbyn ansawdd, gwerth am arian a chyfanswm pris y wisg a gaiff ei dewis. Anaml mai prisiau isel yn unig yw'r ffordd orau o fesur gwerth da.”*

*“Dylai'r wisg ysgol fod yn seiliedig ar y gwerth gorau. Mae dilledyn drutach (o ffynonellau moesegol) sy'n para'n hirach yn fwy costeffeithiol yn yr hirdymor ac yn helpu i leihau gwastraff dillad.”*

*“Dylai ansawdd gwisg ysgol gael ei bwysu a'i fesur yn erbyn y gost bob amser. Os na all trowsusau neu grysau a siwmperi oroesi cael eu golchi sawl gwaith, yna nid yw prynu'n rhad yn fuddiol yn yr hirdymor.”*

*“Er bod gwisg ysgol gan gyflenwr arbenigol yn ddrutach, mae'n fwy tebygol o bara'r flwyddyn ysgol a thu hwnt ac felly bydd yn costio llai yn yr hirdymor.”*

Awgrymwyd y dylai polisïau gyfyngu ar nifer yr eitemau brand. Gwnaeth ymatebwyr sylwadau ar eitemau y mae'n afresymol eu rhagnodi yn eu barn nhw, fel sanau, trowsusau neu sgertiau brand, ac roedd llawer o'r farn na ddylai gwisg addysg gorfforol fod yn dillad brand. Cododd rhieni bryderon ynglŷn â gorfod prynu gwisgoedd chwaraeon brand penodol nad oeddent yn cael eu defnyddio'n aml.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cytuno bod un eitem â brand yr ysgol arni yn ddigon i roi ymdeimlad o hunaniaeth ac roedd yn well ganddynt i steil a lliw eitemau eraill gael eu rhagnodi, ond gyda'r rhyddid i'w prynu o amrywiaeth o siopau. Nodwyd bod y gallu i roi eitemau yn eu tro i frodyr a chwiorydd iau a defnyddio dillad ail law yn haws gydag eitemau generig, a bod hyn yn gwneud gwisg ysgol yn fwy fforddiadwy. Tynnwyd sylw at y ffaith bod siopau cyfnewid a siopau ail law mewn ysgolion yn arfer da ac y dylai ysgolion esbonio i deuluoedd pa gymorth ariannol sydd ar gael iddynt er mwyn prynu eitemau gwisg ysgol, fel grant Mynediad y Grant Datblygu Disgyblion.



*“Gwisg ddrud IAWN (hyd yn oed sanau â brand yr ysgol arnynt!) Nid yw hyn yn briodol.”*

*“Dylai fod cyn lleied â phosibl o eitemau â brand yr ysgol arnynt. Yn sicr, nid oes angen i bethau fel siorts a sanau addysg gorfforol fod â brand yr ysgol arnynt, er enghraifft”*

*“Mae'r ysgol uwchradd y bydd fy merch yn ei mynychu ym mis Medi yn mynnu bod y plant yn gwisgo eu trowsusau a sgertiau brand eu hunain, sy'n llawer drutach na'r wisg sydd ar gael mewn siopau. Mae'r dalgylch yn cynnwys ardal o amddifadedd cymdeithasol felly gallai hyn achosi caledi i'r teuluoedd y mae eu plant yn mynychu'r ysgol.”*

*“Mae'n bwysig iawn y dylai gwisg ysgol fod ar gael mewn archfarchnadoedd er mwyn lleddfu'r baich ariannol ar deuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd. Mae hyn yn cynnwys esgidiau”*

**Roedd llawer o'r farn y dylai ysgolion gynnig logos y gellir eu gwnïo neu eu smwddio ar ddillad er mwyn cyfyngu ar gostau. Fodd bynnag, roedd yr un nifer o'r farn nad oedd eitemau y gellir eu gwnïo ar ddillad yn helpu i sicrhau cydraddoldeb oherwydd byddai ansawdd y dillad yn amrywio.**

*“Ni all pawb fforddio prynu o siopau dillad arbenigol. Dylech allu prynu o unrhyw archfarchnad neu siop ddillad. Dylech werthu bathodynau y gellir eu smwddio neu eu gwnïo ar ddillad os ydych am i rieni roi'r logos ar y dillad eu hunain”*

*“Pam na all pawb wisgo dillad plaen o ba siop bynnag y dymunant, gyda bathodynau wedi'u gwnïo arnynt? Mae'n cadw'r wisg yn fforddiadwy i bawb.”*

*“...Dylid caniatáu i bobl brynu bathodynau gan yr ysgol a'u gwnïo neu eu smwddio ar ddillad. Dylai'r rhain fod yn fforddiadwy hefyd”*

*“Mae cost ychwanegu logo ysgol at ddilledyn yn isel iawn ac mae'r awgrym y dylid gwnïo bathodynau ar ddillad yn gam yn ôl ac ni fyddai wir yn arbed arian. Fodd bynnag, byddai'n rhoi mwy i'r rhieni ei wneud a'r canlyniad terfynol fyddai edrychiad llai unffurf i'r ysgol.”*

*“Er fy mod yn cytuno mewn egwyddor â syniadau fel darparu bathodynau i'w gwnïo ar ddillad, rwy'n pryderu y gallai hyn stigmatiddio disgyblion oherwydd byddai'n amlwg. Mae'n well bod modd cael gafael ar y wisg yn hawdd gan nifer o gyflenwyr er mwyn sicrhau prisiau cystadleuol.”*

*“Rwyf hefyd yn credu, petaech yn cael gwared ar allu'r ysgol i gael crys chwys neu gardigan safonol mewn ysgol gynradd (â bathodyn wedi'i frodio), y byddech yn gwneud pethau'n waeth oherwydd mae bathodynau y gellir eu gludo neu eu gwnïo ar ddillad yn aml yn costio mwy na'r dillad y byddent yn cael eu rhoi arnynt, a byddai angen eu hailosod bob tro y byddai angen prynu dilledyn newydd yn lle dilledyn o ansawdd gwael. Rwy'n adnabod llawer o bobl nad ydynt yn gallu gwnïo ac na fyddent yn fodlon gwneud hyn. Hefyd, efallai y byddwch, heb yn wybod, yn rhoi rhai plant mewn perygl o gael eu bwlio os nad ydynt yn gwisgo dillad â'r "brand" (brand ffasiwn) cywir arnynt.”*

*“Dydw i ddim yn credu y dylid cyflenwi ‘bathodynnau’ logo am fod hyn yn mynd yn groes i'r bwriad o gael gwisg ysgol sy'n edrych yr un peth.”*

**Awgrymwyd y dylid gosod cap ar gost gwisg ysgol ac na ddylai fod yn uwch na'r swm sydd ar gael i deuluoedd drwy'r Grant Datblygu Disgyblion.**

*“Dim ond i'r graddau y dylai fod cost gyfartalog y cytunwyd arni'n rhanbarthol neu'n lleol; a dylai llywodraethwyr fod yn ofalus nad ydynt yn mynd yn uwch na hynny heb gyfrannu bwrsariau o'r Grant Datblygu Disgyblion neu o rywle arall i dalu'r diffyg.”*

*“Dylai fforddiadwyedd fod yn un o'r prif ystyriaethau wrth bennu'r polisi a phenderfynu ar gyflenwad addas. Yn sicr, ni ddylai ysgol y mae'r rhan fwyaf o'i dalgylch mewn ardal o amddifadedd (e.e. canran uchel o brydau ysgol am ddim, cyflogaeth isel ac ati) ystyried rhestr hir o eitemau gorfodol y mae eu gwerth manwerthu'n fwy na'r Grant Datblygu Disgyblion. Ar gyfer ysgol uwchradd, mae'n fwy na phosibl, ar hyn o bryd, y gellir cyflenwi blaser â bathodyn yr ysgol arni, tei ysgol, top a throwsus addysg gorfforol am lai na £70, gan adael rhan sylweddol o'r grant ar ôl i brynu eitemau generig fel trowsusau a chrysau.”*

*“... er mwyn i'r Canllawiau Drafft fod yn effeithiol a sicrhau bod gwisg ysgol yn fforddiadwy i bob plentyn yng Nghymru, dylai osod cap ar gostau gwisg ysgol... ni ddylai cap o'r fath gael ei osod yn uwch na'r swm y mae gan deulu hawl i'w gael o'r Grant Datblygu Disgyblion. Byddai hyn yn sicrhau na fyddai teuluoedd incwm isel sy'n gymwys i gael cymorth ariannol i dalu costau eu gwisg ysgol yn wynebu'r risg o orfod gwario rhagor o arian ar ben y grant ar wisg ysgol eu plant. Byddai hefyd yn lleihau'r posibilrwydd y bydd amrywiadau eang mewn costau gwisg ysgol yn datblygu rhwng ysgolion, gan gyfyngu ar y risg y bydd cyrff llywodraethu rhai ysgolion yn camddeall y pwysau ariannol sy'n wynebu teuluoedd yn eu cymunedau.”*

**Dywedodd ambell ymatebydd na ddylai ysgolion wneud elw o werthu gwisg ysgol.**

*“Ni ddylid caniatáu i ysgolion wneud elw drwy ragnodi dillad/cyflenwr”*

*“Rwy'n gweld bod ein hysgol uwchradd leol yn rhoi tic yn y blwch fforddiadwyedd drwy ganiatáu i ddisgyblion wisgo crys polo heb y logo, ond yr hyn sy'n warthus yn fy marn i yw bod yr ysgol yn gwneud elw ar ei dillad sydd â logo arnynt drwy eu gwerthu i rieni am fwy na'u gwir gost. Hefyd, nid yw ein hysgol uwchradd leol yn caniatáu i'r cwmni sy'n cyflenwi'r dillad eu gwerthu'n uniongyrchol i'r rhieni drwy wefan y cwmni. Oherwydd ei bod am wneud elw. Rwy'n gwybod hyn am fy mod yn gweithio mewn ysgol gynradd, wedi delio â'r cwmni hwn ac yn gwybod beth yw'r gwir gost. Roedd £3 yn fwy yn cael ei godi am y crysau polo. Os byddwch yn gymwys i gael grant y cyngor ar gyfer eich gwisg ysgol, bydd y taliad hwn yn mynd i'r ysgol fel elw am ei bod yn codi gormod. Mae'n anghywir!”*

*“Pam mae'n rhaid i bobl brynu gan gyflenwyr swyddogol yr ysgol a pha fudd ariannol y mae ysgolion yn ei gael am y cytundebau manteisiol hyn? Un enghraifft yw'r ffaith mai dim ond o siop yr ysgol y mae gwisg ysgol ein plant ar gael ac felly mae'r ysgol yn gwneud elw anferth ar yr eitemau hyn am fod polisi'r ysgol yn nodi mai'r eitemau hyn yw'r unig rai y gall y disgyblion eu gwisgo. Yn fy marn i, mae hyn yn gwahaniaethu yn*

*erbyn teuluoedd o gefndiroedd tlottach a dylai fod yn annerbyniol. Dyna pam mae angen deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru i atal y polisiau hyn.*”

## **Ydych chi'n cytuno y dylai cyrff llywodraethu ysgolion ystyried argaeledd eitemau gwisg ysgol a mynediad atynt wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion?**

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Cyfanswm	94%	2%	3%

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a nododd eu barn yn cytuno y dylai cyrff llywodraethu ysgolion ystyried mynediad ac argaeledd wrth bennu eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.

Un thema gyffredin yn yr ymatebion oedd y dylid cynnig dewis o gyflenwyr i rieni, gan ystyried gallu teuluoedd i gael gafael ar gyflenwyr penodol. Ymhlith y problemau mynediad a nodwyd roedd cyflenwyr ag oriau agor cyfyngedig, diffyg cyflenwyr ar-lein a phellteroedd teithio i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.

Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod cael dewis o gyflenwyr yn cadw cost gwisg ysgol mor isel â phosibl drwy gystadleuaeth ac yn galluogi teuluoedd i brynu eitemau generig gan gyflenwyr ar y stryd fawr ac archfarchnadoedd. Awgrymwyd y dylai ysgolion ddewis lliwiau sydd ar gael yn eang. Fodd bynnag, roedd rhai o'r farn ei bod yn fuddiol cael cyflenwr gwisg ysgol penodol gan mai dim ond ar adegau penodol o'r flwyddyn roedd gan fanwerthwyr ar y stryd fawr eitemau gwisg ysgol mewn stoc. Prynu ar-lein oedd orau gan lawer, ond roedd cost ychwanegol am bostio yn gysylltiedig â hyn weithiau.

*“Rwy'n cytuno'n llwyr â'r syniad o wisg ysgol i blant. Fodd bynnag, yr hyn sy'n peri rhwystredigaeth i mi yw'r cyfyngiadau o ran ble y gallaf brynu gwisg ysgol.”*

*“Mae'r gallu i gael gafael ar wisg ysgol yn hanfodol, a'r gallu i wneud hynny'n barhaus i gyfrif am dwf, eitemau'n mynd ar holl a thraul cyffredinol yn ystod y flwyddyn.”*

*“Byddai cael y wisg drwy'r rhyngrwyd neu'n uniongyrchol o'r ysgol/siopau lleol yn gwneud prynu gwisg ysgol yn llawer haws i rieni sy'n gweithio”*

*“Mae cyflenwyr lleol yn darparu gwasanaeth cyson ac mae ganddynt stoc. Bydd prinder stoc neu'r lliwiau cywir mewn archfarchnadoedd yn aml.”*

*“Dylai fod yn rhaid i ysgolion sicrhau bod eitemau gwisg ysgol ar gael gan ddau gyflenwr gwahanol o leiaf (gyda'r logos ar gael ar wahân os oes angen).”*

*“Dylai hanfodion fel trowsusau a sgertiau fod ar gael yn hawdd a dylai fod gan yr ysgol gyflenwr ar gyfer siwmperi â logo arnynt neu sgertiau penodol. Dylai cynllun prynu ail law fod ar gael hefyd.”*

*“Mae llawer o rieni'n gweithio ac ni allant fynd i siopau sy'n gwerthu gwisg ysgol yn ystod oriau gwaith. Mae'n haws i rai brynu gwisg ysgol mewn archfarchnadoedd 24 awr ac ar-lein.”*

*“Mae angen gwneud yn siŵr ei bod ar gael i'w phrynu naill ai ar-lein neu mewn siop yn lleol.*

*“Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod y wisg a ddewisir ar gael yn eang mewn siopau stryd fawr a mannau gwerthu eraill a gan gyflenwyr ar y rhynggrwyd, yn hytrach na gan un cyflenwr drud”*

*“Dylai rhieni allu prynu 365 diwrnod y flwyddyn, yn ddelfrydol mewn mwy nag un ffordd (ar-lein, siop ffisegol ac efallai drwy'r ysgol hefyd)”*

*“Ydw, mae mynediad ac argaeledd yn bwysig drwy gydol y flwyddyn. Mae archfarchnadoedd/manwerthwyr cadwyn yn stocio cynhyrchion yn dymhorol yn eu siopau. Er y gallai fod ganddynt amrywiaeth dda o ran steiliau, lliwiau a meintiau yn ystod y cyfnod cyn mynd yn ôl i'r ysgol, maent yn annhebygol o stocio ac ailgyflenwi popeth yn ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn”*

**Nodwyd bod sicrhau bod meintiau ar gael hefyd yn broblem i rai, gyda rhai dyluniadau a thoriadau yn anaddas neu ddim ar gael mewn meintiau penodol.**

*“Ar hyn o bryd, dim ond dwy siop sy'n stocio'r wisg ysgol â brand ein hysgol arni y mae disgwyl i'r disgyblion ei gwisgo. Mae hyn yn creu anawsterau pan nad oes llawer ar gael. Yn aml, nid oes dilledyn ar gael yn y maint sydd ei angen, nac eitemau ar fyr rybudd, a bydd angen eu harchebu.”*

*“Mae mynediad ac argaeledd yn bwysig, ond dylent gael eu hystyried ar y cyd â'r holl ffactorau eraill. Drwy gynnig sawl lle i gwsmeriaid brynu'r wisg, ni fydd un cyflenwr yn cymryd cyfrifoldeb na pherchenogaeth dros y cyflenwad hwnnw. Felly, maent ond yn debygol o stocio'r meintiau a'r lliwiau poblogaidd y maent yn gwybod y byddant yn eu gwerthu, ac ni fyddant yn ystyried sicrhau bod y stoc yn cael ei chynnal drwy gydol y flwyddyn o gwbl. Ni fyddant yn ystyried mai eu cyfrifoldeb nhw yw hynny ac felly bydd achosion o brinder.”*

*“Mae hefyd yn amlwg mai dim ond dillad cyffredinol mewn meintiau poblogaidd y maent yn debygol o'u gwerthu y mae'r siopau eraill yn trafferthu cadw stoc ohonynt. Ni fydd plant cynradd y mae angen dillad mwy na maint 11/12 oed arnynt, merched uwchradd y mae angen dillad maint 40" neu fwy arnynt, bechgyn uwchradd y mae angen coleri maint 15.5" neu fwy arnynt, disgyblion uwchradd â gwasg maint 34" neu fwy, coesau byr neu goesau hir iawn yn gallu cael gwisg ysgol heb y siopau arbenigol gan na fydd hynny o bwys penodol i unrhyw un. Mae'n bwysig i'r siop arbenigol sydd â chydberthynas â'r ysgol, ac sydd felly'n fwy atebol, eu bod yn ffitio pob plentyn.”*

Roedd yn well gan rai cyflenwyr lleol, am resymau yn ymwneud ag argaeledd ac am resymau economaidd.

*“Dylai cyrff llywodraethu gymeradwyo cyflenwyr sy'n buddsoddi yn yr economi leol, naill ai drwy gael siop o fewn 20 milltir i'r ysgol i rieni fynd iddi hi neu drwy ddod i'r ysgolion yn cynnig gwerthu'n uniongyrchol i rieni. Mae gwefan dda yn hanfodol er mwyn gwerthu gwisg ysgol i rieni y mae'n well ganddynt brynu fel hyn. Dylai ysgolion yng Nghymru gael eu hannog i gefnogi cyflenwyr yng Nghymru.”*

*“Mae'n rhaid i bob un ohonom ddechrau meddwl am effaith amgylcheddol fyd-eang y dillad rydym yn eu prynu, a'r foeseg sy'n gysylltiedig â'r broses o'u gweithgynhyrchu. Mae rheolau ysgol haearnaidd iawn (e.e. dim ond un brand o drowsus) yn gwneud hyn yn amhosibl. Y tu allan i'r ysgol nid yw fy merched yn gwisgo polyester â haen o defflon drosto... Ond yn yr ysgol nid oes gen i unrhyw opsiynau o gwbl yn aml, mae bathodyn ar y siwmpwr, mae brandiau a lliwiau penodol i'r sgertiau a'r trowsusau. Byddwn i wrth fy modd yn gweld Cymru yn arwain y ffordd drwy gael polisi amgylcheddol gwell ar gyfer gwisg ysgol.”*

*“Rwy'n pryderu mwy am effaith gwisg ysgol ar yr amgylchedd. Os nad oes llawer o ddewis, mae hynny fel arfer yn golygu bod angen prynu polyester â haenau gwrth-staen sy'n amharwyr endocrinaidd ac yn beryglus i'r amgylchedd. Mae gwisg ysgol yn fôr o bolyester a haen drosto, mae'n anodd iawn cael unrhyw beth sy'n amgylcheddol gynaliadwy ac eto'n bodloni meini prawf yr ysgol.”*

*“Nid oes sôn wedi bod am effaith polisiau gwisg ysgol ar yr amgylchedd ond mae'n ffactor pwysig. Bob blwyddyn, bydd plant yn tyfu allan o wisg gwbl wisgadwy ac er y gall rhai teuluoedd roi'r wisg hon i frodyr neu chwiorydd iau, nid oes system aildefnyddio dda ar gael i lawer o deuluoedd. Hefyd, dylid lleihau'r defnydd o focsys siwmpwr coll yn yr ysgol cymaint â phosibl, gyda siwmpwr'n cael cartrefi newydd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf. Yn bersonol, byddwn wrth fy modd yn prynu gwisg ail law i fy mhlant ond nid oedd hyn ar gael i mi. Byddai cyfle'n cael ei golli pe na baem yn ystyried effaith polisiau gwisg ysgol ar yr amgylchedd a'r potensial i greu Cymru fwy cynaliadwy.”*

Cytunwyd ar y cyfan y dylai mynediad ac argaeledd fod yn ystyriaethau allweddol wrth bennu neu ddiwygio polisiau gwisg ysgol ac mai cyrff llywodraethu sydd yn y sefyllfa orau i ddeall eu hardaloedd daearyddol ac economaidd ac ystyried hyn wrth bennu polisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.

Yn y fersiwn hawdd ei deall o'r ymgynghoriad, roedd cwestiwn 3 wedi'i eirio ychydig yn wahanol, gan ofyn “Wyt ti'n cytuno y dylai gwisg ysgol fod yr un fath i bob disgybl?”. Yn ogystal â'r safbwyntiau uchod, arweiniodd hyn hefyd at ymatebion ynglŷn â gwahanol eitemau gwisg ysgol i wahanol oedrannau, er enghraifft, gwisg amgen neu ddim gwisg benodol i ddisgyblion chweched dosbarth ac eitemau gwisg ysgol gwahanol i wahaniaethu rhwng grwpiau blwyddyn amrywiol, megis teis lliw gwahanol.

*“Mae disgyblion chweched dosbarth yn oedolion ifanc ac ni ddylai fod yn rhaid iddynt wisgo gwisg ysgol.”*

*“Mae gan ysgol fy merch amrywiaeth o wahanol deis i wahanol grwpiau blwyddyn, ac ni allaf weld unrhyw gyfiawnhad dros hyn. Efallai y gall fod yn dderbyniol cael gwisg ysgol amgen ddewisol i'r chweched dosbarth (e.e. tei gwahanol, neu ganiatáu siacedi neu flaseri yn lle siwmperi). Ond ni ddylai byth fod angen newid gwisg ysgol, dim ond oherwydd symud i flwyddyn ysgol newydd.”*

*“Gwisgodd fy merch ei dillad ei hun yn y chweched dosbarth, a gostiodd lawer yn fwy i mi na'r wisg ysgol safonol ac mae pawb yn gyfartal.”*

## **Ydych chi'n cytuno na ddylai polisïau gwisg ysgolion wahaniaethu rhwng gwahanol eitemau o ddillad ar sail rhyw neu rywedd?**

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Cyfanswm	71%	16%	13%

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a nododd eu barn yn cytuno na ddylai polisïau gwisg ysgolion wahaniaethu rhwng gwahanol eitemau o ddillad ar sail rhyw neu rywedd. Er bod yn well gan rai wisg ysgol niwtral o ran y rhywiau, dywedodd llawer o'r ymatebwyr ei bod yn well ganddynt eitemau ar wahân i fechgyn a merched ond y dylid caniatáu i ddisgyblion ddewis pa rai i'w gwisgo. Fodd bynnag, cododd rhai ymatebwyr bryderon y gall hyn arwain at gael gwared ar ddillad fel sgertiau o bolisïau gwisg ysgol ond ei bod yn bwysig parhau i gynnig dewis i bobl fynegi rhywedd.

Hefyd, dywedodd llawer o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno neu ddim yn cytuno nac yn anghytuno y dylai polisïau gynnwys eitemau gwisg ysgol ar gyfer gwahanol rywiau a rhyweddau ond y dylai myfyrwyr fod yn rhydd i wisgo eitemau o'r naill restr a'r llall.

Mynegodd lleiafrif o'r ymatebwyr farn y dylai eitemau o ddillad fod yn wahanol i fechgyn a merched.

Hefyd, nododd ymatebwyr y dylai cyrff llywodraethu fod yn ymwybodol o ofynion gwahanol grefyddau a diwylliannau o ran gwisg wrth ragnodi eitemau gwisg ysgol. Rhaid diwallu anghenion disgyblion y mae'n ofynnol iddynt wisgo eitemau am resymau crefyddol a rhaid i ysgolion sicrhau nad yw gwisg ysgol yn gwahaniaethu yn erbyn disgyblion ar unrhyw sail.

*“Rwy'n credu y dylai sgertiau fod ar gael o hyd i'r rhai sydd am eu gwisgo ac ni ddylid cael rheol trowsus yn unig”*

*“Dydw i ddim yn gweld pam na all fy merch wisgo siorts chwaraeon ar gyfer ymarfer corff. Byddai gwisg niwtral o ran y rhywiau yn well.”*

*“Yn yr oes sydd ohoni, mae'n gwbl hanfodol cael cydraddoldeb a gwisg ysgol nad yw'n rhyw benodol er mwyn diogelu iechyd meddwl a hunaniaeth ein plant”*

*“Ni ddylent allu rhoi gorchmynion ar sail rhywedd o gwbl! Dylai'r disgybl gael penderfynu a yw am wisgo sgert neu drowsus, blows neu grys ac ati.”*

*“Mae fy mhlentyn yn mynd drwy broses o adnabod ei rhywioldeb ac mae wedi dweud yn agored ei bod yn ddeurywiol ond mae'n gas ganddi wisgo'r siwmperi gorfodol sydd wedi'u ffitio ar gyfer merched pan all y bechgyn wisgo siwmperi cyfforddus a llac. Mae'n teimlo y dylai gael gwisgo'r wisg hon hefyd”*

*“Dylai hyn gynnwys rhoi dewis i bob plentyn o ran gwisgo trowsusau neu sgertiau, ni waeth beth fo'u rhywedd na'u rhywioldeb”*

*“Dylid mynd i'r afael â'r cwestiwn ynghylch rhywedd gwisg ysgol drwy ganiatáu i'r disgyblion rhyweddhyllfol wisgo gwisg ysgol y naill rywedd neu'r llall fel y bo angen, heb unrhyw wahaniaethu yn eu herbyn. Byddai'n anodd bodloni gofynion ymarferol cael polisi gwisg ysgol sy'n rhagnodi dillad niwtral o ran y rhywiau yn unig. Fodd bynnag, dylid caniatáu ac annog polisïau sy'n caniatáu i blant wisgo unrhyw ddillad sy'n rhan o'r polisi gwisg ysgol.”*

*“Mae hwn yn gam cadarnhaol, mae eisoes yn digwydd mewn rhai ysgolion ond nid ym mhob un.”*

*“Ni ddylai polisïau gwisg ysgol bennu eitemau o ddillad ar sail rhyw na rhywedd ac, yn hytrach na hynny, dylent gynnig rhestr o eitemau gwisg ysgol derbyniol y gall disgyblion ddewis ohoni.”*

*“Ni fyddwn yn cytuno y dylai polisi sy'n gwahaniaethu ar sail rhyw (nac ar unrhyw sail arall) ddod yn dderbyniol os mai crefydd yw'r cyfiawnhad honedig dros y gwahaniaethu. Does bosibl mai'r pwynt y dylid ei wneud ynglŷn â chrefydd yw y dylai polisïau gwisg ysgol fod yn sensitif i'r mathau o wisg a gaiff eu gwisgo gan ddisgyblion sy'n dilyn gwahanol grefyddau, a all olygu rhywfaint o hyblygrwydd, ac efallai caniatáu i amrywiaeth ehangach o eitemau gael eu gwisgo nag a fyddai'n cael eu caniatáu fel arall.”*

*“Yn sicr, dylem barchu hawl credinwyr crefyddol i ddilyn eu ffydd yn yr ysgol, gan gynnwys eu hawl i wisgo dillad sy'n amlwg yn rhyw benodol. Byddai gwneud fel arall yn gyfystyr â gwahaniaethu ar sail crefydd ac yn dangos anoddefgarwch dwfn tuag at deuluoedd â chredoau gwahanol ynghylch dillad rhyw benodol.”*

**Codwyd y pwynt y dylai polisïau gwisg ysgol sicrhau nad oes gwahaniaeth o ran costau am wisg i'r naill ryw/rhywedd a'r llall. Dywedodd rhai ymatebwyr fod rhai eitemau yn ddrutach ar gyfer rhywedd penodol, er enghraifft, lle roedd bechgyn yn gwisgo trowsusau generig a merched yn gwisgo sgertiau â brand yr ysgol arnynt.**

*“Gadewch iddynt ddewis gwisgo trowsusau neu sgertiau, pa un bynnag sy'n gwneud iddynt deimlo'n iawn ynddynt eu hunain. Mae gan un ysgol leol sgert dardan i ferched sydd fel arfer yn costio £25 yr un. Mae'r bechgyn yn gwisgo trowsus llwyd sy'n costio tua £10. Nid yw hyn yn deg iawn.”*

Roedd rhai o'r farn na ddylid ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr wisgo rhai eitemau penodol fel sgertiau a theis am resymau amrywiol ac y dylent fod yn ddewisol. Soniwyd hefyd y gall rhagnodi gwisg addysg gorfforol wahanol i ferched wneud iddynt deimlo'n fregus ac wedi'u cyfyngu o ran eu gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Hefyd, ystyriwyd gwahanol steiliau a thoriadau dillad gan y gall y rhain wneud i fyfyrwyr deimlo'n anghyfforddus.

*“Ni ddylai merched byth gael eu gorfodi i wisgo sgertiau ar gyfer unrhyw weithgaredd”*

*“Ni ddylai merched gael eu hanfenyweiddio, dylent deimlo y gallant wisgo sgertiau.”*

*“Mewn rhai o'r ysgolion uwchradd, rwy'n ymwybodol bod y bechgyn wedi cael caniatâd i wisgo siorts yn ystod misoedd yr haf ond bod y merched wedi gorfod gwisgo sgertiau. Wedyn mae'n rhaid i'r merched benderfynu sut i ddiogelu eu gwyleidd-dra, naill ai drwy wisgo teits (sy'n anymarferol a ddim yn iach yn ystod tywydd eithafol o boeth) neu wisgo siorts o dan y sgert (sy'n golygu cost ychwanegol i'r rhieni a ddim yn opsiwn iach chwaith).”*

*“Dylid stopio gwneud i ferched wisgo teis. Ni fyddai menyw yn gwisgo tei yn unrhyw le arall mewn bywyd. Mae'n chwerthinllyd. Mae ymchwil yn dweud bod menywod yn teimlo bod yn rhaid iddynt wisgo fel dynion i lwyddo. Mae hyn yn dechrau yn yr ysgol – gadewch i ni atal hyn.”*

*“Dylai merched a bechgyn allu gwisgo beth bynnag y maent yn gyfforddus yn ei wisgo waeth beth fo'u rhyw...Dyfais gymdeithasol yw rhywedd ac felly mae'n amherthnasol”*

*“Mae fy mab yn fachgen mawr a byddai'n fwy cyfforddus petai'n cael gwisgo trowsus loncian yn hytrach na throwsus.”*

*“Nid oes lle i wahaniaethu ar sail rhywedd yn ein hysgolion.”*

*“Rwy'n credu y dylid cynnig sgert, siorts bach neu drowsus, heb ystyried rhywedd. Ni chredaf fod dim ond cynnig trowsus i bawb yn dderbyniol, gan y bydd rhai merched ifanc wedi tyfu i fyny'n gwisgo sgertiau ac yn teimlo'n fwy cyfforddus mewn sgert.”*

*“Rwy'n cytuno na ddylai polisïau ragnodi bod bechgyn yn gwisgo trowsusau a bod merched yn gwisgo sgertiau ond rwy'n anghytuno â gwneud i bawb wisgo gwisg ysgol niwtral o ran y rhywiau, sef yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yn ysgol fy merch. O fis Medi, ni fydd ganddi hawl i wisgo sgert mwyach. Ble mae ei hopsiwn i wneud dewis?”*

*“Dylai hyn gynnwys rhoi dewis i bob plentyn o ran gwisgo trowsusau neu sgertiau, ni waeth beth fo'u rhywedd na'u rhywioldeb.”*



Nododd llawer o'r ymatebwyr na ddylid caniatáu gwahaniaethu ar sail rhywedd ac y dylid caniatáu i blant fynegi eu hunain yn rhydd wrth iddynt ddatblygu eu hunaniaethau eu hunain.

*“Mae angen i ysgolion a chyrrff llywodraethu ystyried deddfwriaeth cydraddoldeb”*

*“Rydym yn cytuno'n llwyr na ddylai polisiâu gwisg ysgolion wahaniaethu rhwng gwahanol eitemau o ddillad ar sail rhyw neu rywedd. Rhaid i gyrff llywodraethu gydymffurfio'n llawn â'r ddeddfwriaeth cydraddoldeb bresennol a pheidio â gwahaniaethu ar sail rhyw na rhywedd. Mae hyn yn berthnasol o ran gwisg ysgol a materion yr ystyrir eu bod yn perthyn i gategori 'edrychiad'. Mae llawer o ysgolion wedi gwneud addasiadau cadarnhaol a synhwyrol i'w polisi er mwyn ystyried materion o'r fath yn llawn, ond nid yw hyn yn gyson ledled Cymru”*

### **Ydych chi'n cytuno y dylai cyrrff llywodraethu ysgolion nodi'n glir eu hagwedd at amrywio eitemau gwisg ysgol yn sgil amodau tywydd eithafol wrth lunio eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion?**

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Cyfanswm	89%	6%	5%

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a noddodd eu barn yn cytuno y dylai cyrrff llywodraethu ysgolion nodi'n glir eu hagwedd at amrywio eitemau gwisg ysgol yn sgil amodau tywydd eithafol wrth lunio eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion. Teimlai llawer ohonynt fod addasiadau syml fel caniatáu i ddisgyblion wisgo gwisg addysg gorfforol neu gael gwared ar flaseri a siwmperi mewn tywydd poeth yn gyfaddawd addas. Roedd ymatebwyr o'r farn y dylai gael ei nodi'n glir yn y polisi beth fyddai'n dderbyniol a sut y byddai newidiadau yn cael eu cyfleu er mwyn osgoi unrhyw ddryswch. Un thema gref a ddaeth i'r amlwg o sylwadau'r ymatebwyr oedd bod iechyd, diogelwch a llesiant disgyblion yn hollbwysig.

*“Ni ddylai gwisg ysgol byth gael ei gorfodi ar draul llesiant, iechyd nac addysg disgyblion”*

*“Gwisg addysg gorfforol yn iawn mewn tywydd poeth, mae gwisg anffurfiol yn rhoi gormod o bwysau i wisgo dillad drud”*

*“Dylai plant allu tynnu eu siwmperi heb ganiatâd pan fyddant yn boeth”*

*“Mae oedolion yn gallu dewis gwisgo ar gyfer y tywydd, pam na all plant wneud hynny?”*

*“Dylai plant allu gwisgo dillad ysgafnach yn yr haf neu ddillad cynhesach mewn tywydd eithafol o oer. Fodd bynnag, byddwn yn ffafrio addasu'r wisg ysgol, e.e. siorts a chrys yn yr haf yn hytrach na chael wisg ar wahân ar gyfer y gaeaf a'r haf.”*

*“Mae bod yn gyfforddus mewn gwres ac oerfel yn hawl ddynol sylfaenol. Os yw hi'n boeth, dylid caniatáu i'r plentyn wisgo dillad ysgafn. Os yw hi'n oer, dylid caniatáu i'r plentyn wisgo dillad cynnes. Mae gan oedolion y dewis hwn....pam nad yw'r plant yn ei gael???”*

*“Newidiodd ysgol fy mab y polisi wisg ysgol yn ystod y tywydd poeth yr haf diwethaf gan ragnodi y gall disgyblion wisgo wisg addysg gorfforol yr ysgol. Synhwyrol iawn.”*

*“Cododd pob un o'r dysgwyr yr un pwynt. Os yw'r tymheredd yn uchel neu'n isel yn dibynnu ar yr adeg o'r flwyddyn, gall wisgo wisg ysgol fynd yn anghyfforddus, sy'n effeithio ar eu gallu i ganolbwyntio ar eu hastudiaethau a gall pethau eraill fynd â'u sylw'n hawdd oherwydd hynny.”*

*“Yn seiliedig ar y rheoliadau i oedolion yn y gweithle, dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu / rheoleiddio fel y dylid caniatáu llewys byr a throwsusau wedi'u teilwra hyd at y pengliniau pan fydd y tymheredd yn cyrraedd 21C, er mwyn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn plant mewn ysgolion uwchradd ac mai'r brif flaenoriaeth iddynt yw bod mor gyfforddus â phosibl er mwyn sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau posibl”*

*“Mae'n bwysig ystyried tywydd poeth, oer a gwlyb. Dylai llesiant y plant fod wrth wraidd unrhyw benderfyniadau ynghylch polisi wisg ysgol.”*

*“Dylai'r hyblygrwydd hwn sicrhau na chaiff disgyblion eu hanfon adref na'u cosbi am addasu wisg ysgol yn wyneb tywydd eithafol.”*

*“Dylai wisg ysgol gael ei dylunio fel y dylai disgyblion fod mor gyfforddus â phosibl er mwyn hybu dysgu da”*

*“Dylai corff llywodraethu'r ysgol nodi'r dull gweithredu yn glir yn y polisi wisg ysgol ac edrychiad disgyblion, yn hytrach na dim ond rhoi gwybod amdano yn ôl yr angen pan fydd tywydd eithafol yn taro. Byddai hyn yn galluogi'r rhai sy'n prynu dillad i ystyried y polisi tywydd eithafol wrth wneud penderfyniadau prynu”*

*“Credwn fod hwn yn gyfle i Lywodraeth Cymru fynd gam ymhellach a phennu uchafswm tymheredd o 26C ar gyfer ystafell ddosbarth. Credwn y byddai hyn yn diogelu llesiant gweithwyr addysg proffesiynol a'r plant a phobl ifanc yn ein hysgolion. Os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif ynglŷn â sicrhau bod llesiant yn un o nodau allweddol 'Cenhadaeth ein Cenedl', ni ddylai gollir cyfle hwn.”*

*“Mae'n ymddangos bod hyn yn rhesymol iawn ac, o ystyried y newid yn yr hinsawdd, bydd yn dod yn fwy hanfodol byth. Yn sicr, hyblygrwydd mewn polisiâu ar gyfer amodau tywydd eithafol yw'r ffordd orau ymlaen.”*

*“Cytuno. Dylai'r polisi nodi'n glir beth yw'r rheolau priodol o ran wisg ysgol ar gyfer amodau tywydd amrywiol, pa eitemau o ddillad fydd yn dderbyniol, a sut y caiff hyn ei gyfleu.”*

*“Mae eglurder i bawb – staff, disgyblion a rhieni – yn hollbwysig er mwyn osgoi dryswch.”*

*“Mae llawer o ysgolion wedi gwneud addasiadau cadarnhaol a synhwyrol i'w polisi er mwyn ystyried materion o'r fath yn llawn, ond nid yw hyn yn gyson ledled Cymru. Mae hyn yn berthnasol yn yr haf yn ogystal â'r gaeaf, gan roi sylw dyledus i sicrhau nad yw eu dull gweithredu'n gwahaniaethu ar unrhyw sail. Mae llawer o deuluoedd incwm isel yn ei chael hi'n anodd darparu mwy nag un gôt i'w plant o ystyried cost uchel eitemau o'r fath. Dylai cyrff llywodraethu ysgolion fod yn ymwybodol o hyn wrth bennu eu polisiau.”*

## **Effeithiau polisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion ar y Gymraeg.**

O'r ychydig ymatebwyr a wnaeth sylwadau, roedd y mwyafrif o'r farn na fyddai'r canllawiau'n cael unrhyw effaith gadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg. Dywedodd rhai y dylai unrhyw logo ysgol fod yn ddwyieithog, ac y byddai gwisgo gwisg ysgol yn rhoi ymdeimlad o falchder i fyfyrwyr ynglŷn â'u treftadaeth a'u cenedligrwydd. Codwyd y pwynt y dylai unrhyw gyflenwyr a ragnodir gan bolisi ysgol allu cyfathrebu yn Gymraeg er mwyn galluogi rhieni i ddefnyddio eu dewis iaith, a bod yn rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw rai o Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol.

## **Sylwadau Ychwanegol**

Ymhlith y sylwadau roedd pryderon ynglŷn â phlant yn cael eu cosbi am beidio â gwisgo'r wisg gywir, a all fod y tu hwnt i'w rheolaeth, a stigmatiddio teuluoedd incwm is. Roedd rhai o'r farn y dylai fod canllawiau clir ar gosbau a phryd y dylid eu rhoi, gan arfer disgrisiwn lle bo eitem wedi'i baeddu neu ei difetha a methu â chael ei gwisgo nes bod un newydd wedi cael ei phrynu.

*“Credaf hefyd fod ynysu disgyblion nad ydynt yn cydymffurfio â chodau gwisg ysgol oherwydd y manylyn lleiaf yn ymateb dros ben llestri i broblem artiffisial, ac y dylai unrhyw ganllawiau statudol a roddir i ysgolion hefyd ymgorffori'r defnydd cywir o ynysu, gwahardd a mathau eraill o gosbau yn y sefyllfaoedd hyn.”*

*“Mae wedi cymryd gormod o amser i fynd i'r afael â'r ddadl hon. Mae plant yn cael eu targedu mewn ysgolion, yn cael eu cadw i mewn ac yn cael eu hanfon adref oherwydd penderfyniad eu rhieni i ddarparu gwisg ysgol y gallant ei fforddio neu gael gafael arni. Cael eu hanfon adref am fod â throwsus du y lliw anghywir neu bâr penodol o esgidiau neu wallt sy'n rhy neu'n rhy hir.”*

*“Hefyd, os na all y rhieni fforddio'r wisg ysgol gywir, mae'r plant yn cael eu cosbi.”*

*“Ni ddylai plant byth gael eu cosbi am wisgo eitemau heb logo arnynt os na all eu rhieni fforddio'r eitemau hyn neu gael gafael arnynt. Mae'n greulon ac yn ddiangen. Dylai fod gan gyrrff llywodraethu'r pŵer i ddwyn staff ysgol i gyfrif os bydd hyn yn digwydd.”*

*Dylai'r canllawiau gynnwys cyngor ar 'gosbi' am beidio â gwisgo gwisg ysgol. Pam gwahardd rhywun o'r ysgol am beidio â chael logo ar ei grys?”*

*“Fel egwyddor, dylai gwisg ysgol leddfu straen ar ddisgyblion a theuluoedd – nid ei achosi. A dylai leihau anghydraddoldeb yn yr ysgol, nid ei gynyddu. Ni ddylai gwisg ysgol byth fod yn rhwystr rhag presenoldeb neu addysg.”*

*“Rwyf hefyd yn anghytuno'n gryf â chosbi myfyrwyr am fân broblemau yn ymwneud â gwisg ysgol, yn enwedig pan fo'n debygol iawn mai tlodi neu anawsterau rhianta sy'n gyfrifol am broblemau o'r fath.”*

**Cafwyd sawl sylw yn dweud nad oes angen logo ar wisg addysg gorfforol, a phryderon ynglŷn ag eitemau gofynnol ond yn cael eu defnyddio ar ambell achlysur.**

*“Bu'n rhaid i mi wario bron i £200 y plentyn ar wisg/sanau/esgidiau/ategolion chwaraeon ac ati ac nid yw fy meibion yn hoff o chwaraeon o gwbl. Digon teg os yw eich plentyn yn mwynhau chwaraeon ac yn gallu defnyddio rhywfaint o'r offer chwaraeon y tu allan i'r ysgol, ond nid yw hynny'n wir am fy mhlant i! Beth sydd o'i le ar eitemau lliw plaen ar gyfer gwersi addysg gorfforol safonol?”*

*“O ddifrif, nid yw wisg addysg gorfforol, esgidiau ac eitemau gwahanol o ddillad yn angenrheidiol. Os ydynt yn chwarae i dîm yr ysgol dylai'r ysgol ddarparu'r crys er mwyn gallu eu hadnabod ond ar wahân i hynny nid yw'n angenrheidiol ar gyfer un wers awr o hyd bob wythnos.”*

*“Mae wisg addysg gorfforol yn ddrud iawn yn ein hysgol ni ac efallai y gallai dim ond crys-t gorfodol fod yn ddisgwyliedig ac yna gallai rhieni ddarparu siorts du plaen neu bethau tebyg. Nid oes arna i unrhyw awydd talu £20 am bâr o siorts addysg gorfforol nad ydynt yn gwella perfformiad ac a fydd yn aml yn mynd ar goll yn y pen draw.”*

*“Yn sicr, nid oes angen i bethau fel siorts a sanau addysg gorfforol fod â brand yr ysgol arnynt”*

*“Nid oes angen i logos fod yn ofynnol ar wisg addysg gorfforol – byddai rhywbeth fel trowsus loncian neu siorts du plaen a chrys-t lliw plaen yn iawn, yn enwedig gan mai dim ond dwy wers addysg gorfforol yr wythnos a gaiff y rhan fwyaf o blant ysgol uwchradd. Mae'n anghymesur o ddrud gwneud wisg addysg gorfforol benodol â logos arni yn ofynnol.”*

*“Roedd wisg addysg gorfforol fy mab yn cynnwys gwahanol eitemau ar gyfer gwahanol chwaraeon. Ydy hyn wir yn angenrheidiol fel wisg orfodol? Nac ydy, ac nid yw'n cael ei orfodi ond mae ar restrau blwyddyn 7 ac mae'n ychwanegu pwysau.”*

*“Hefyd, dylai wisg addysg gorfforol gynnwys siorts/trowsus loncian a chrys-t syml plaen. Maent yn chwerthinllyd o ddrud.”*

Gwnaeth nifer o'r ymatebwyr sylwadau am gynnwys steiliau gwallt, gemwaith a cholur mewn canllawiau gwisg ysgol. Roedd rhai o'r farn y byddai'n ddefnyddiol eu cynnwys tra oedd eraill o'r farn y dylai pobl ifanc allu gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u hedrychiad personol eu hunain.

*“Ni ddylai codau gwisg ysgol byth roi canllawiau ar liw a steil gwallt.”*

*“Gall cael cyfarwyddyd i dynnu colur effeithio ar hyder gan ei bod yn bosibl bod plant yn ei ddefnyddio i guddio smotiau ac ati. Er fy mod yn gwerthfawrogi na ellir cyfiawnhau colur trwm, dylid gallu gwisgo ychydig bach bob dydd.”*

*“Mae angen ystyried lliw gwallt, toriad/steil gwallt, a cholur hefyd. Sut mae'r ffaith bod rhywun yn lliwio ei wallt yn effeithio ar ddysgu? Sut mae marciau wedi'u heillio yn y gwallt, dyweder, yn effeithio ar ddysgu? A sut y gall colur (a ddefnyddir gan rai er cysur a hyder) effeithio ar ddysgu?”*

*“Ehangwch y rheolau ynglŷn â gemwaith a gwallt i adlewyrchu'r oes fodern”*

*“Mae angen cynnwys colur a chynnyrch cosmetig fel rhan o'r polisi edrychiad disgyblion. Rhaid i unrhyw bolisiau mewn perthynas â gwallt, gemwaith, colur a chynnyrch cosmetig drin y rhywiau a'r rhyweddau yn gyfartal.”*

*“Ni ddylai codau gwisg ysgol byth roi canllawiau ar liw a steil gwallt”*

*“Nid yw'r hyn y mae plentyn yn ei wisgo na'r ffordd y mae'n steilio ei wallt yn cael unrhyw effaith ar ei addysg ac felly mae rhyddid mynegiant yn rhan bwysig o dyfu'n hŷn”*

*“Dylai plant allu cael rhyddid mynegiant, h.y. steil gwallt o'u dewis, esgidiau y maent yn eu hoffi. Nid oes unrhyw rai o'r pethau hyn yn effeithio ar addysg ac mae'n dangos parch tuag at wahanol bobl – mae'n gweithio'r ddwy ffordd. Rydym ni wedi cael caniatâd i liwio ein gwallt pa liw bynnag y dewiswn yn y gweithle ac nid yw pobl yn beirniadu tatŵs na thyllau yn y croen mwyach”*

*“Mae angen cynnwys colur a chynnyrch cosmetig fel rhan o'r polisi edrychiad disgyblion. Rhaid i unrhyw bolisiau mewn perthynas â gwallt, gemwaith, colur a chynnyrch cosmetig drin y rhywiau a'r rhyweddau yn gyfartal.”*

Ystyriwyd pobl ifanc ag anableddau, neu anghenion ac anawsterau penodol hefyd. Ymhlith y sylwadau roedd yr angen i ystyried eitemau gwisg ysgol amgen i'r disgyblion hyn ac ystyried materion sensitif wrth benderfynu ar ddeunyddiau a gweadau, ac eitemau cyfyngol.

*“Anghenion synhwyaidd plant awtistig a phlant anabl eraill. Mae gan lawer o blant broblemau synhwyaidd mewn perthynas â cholera a chyffiau crysau traddodiadol, logos wedi'u brodio, trowsusau traddodiadol. Byddai'n wych gweld gwisg ar gyfer anawsterau synhwyaidd neu wisg wedi'i haddasu ar gyfer AAA i'r plant hyn.”*

*“Dylai ysgolion ystyried effaith polisiau gwisg ysgol ar ddarparu ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth neu broblemau synhwyaidd eraill.”*

*“Dylai fod llawer mwy o hyblygrwydd o ran gwisg ysgol i blant ag awtistiaeth ac anawsterau synhwyraidd. Y gallu (er enghraifft) i wisgo dillad tebyg ond mewn deunyddiau meddalach, yn hytrach na glynu'n gaeth wrth y polisi. Byddai addasiadau rhesymol yn gymorth enfawr.”*

*“Rwy'n credu mai'r pethau pwysicaf yw bod plant yn gyfforddus fel y gallant ddysgu'n effeithiol, ac nad yw polisiâu gwisg ysgol yn rhwystr rhag dysgu i blant na allant fforddio'r wisg, sydd â phroblemau mewn perthynas ag anableddau neu broblemau iechyd sy'n ei gwneud hi'n anodd iddynt os yw'r polisi gwisg ysgol yn rhy gyfyngol, neu na allant wisgo eitemau penodol o ddillad am resymau diwylliannol neu grefyddol. Holl bwrpas gwisg ysgol yw hybu cydraddoldeb ac ymdeimlad o gymuned, felly dylai hyn fod wrth wraidd polisi gwisg ysgol pob ysgol.”*

*“Dylai ysgolion hefyd ystyried anghenion ychwanegol wrth ystyried polisiâu gwisg ysgol, e.e. problemau synhwyraidd.”*

**Nododd llawer o'r ymatebwyr mai pwysigrwydd gwisg ysgol oedd sicrhau cydraddoldeb a gwella ymddygiad, ymhlith buddiannau eraill. Fodd bynnag, gwnaeth rhai ymatebwyr gwestiynu'r angen am wisg ysgol, gan gyfeirio at ddiffyg tystiolaeth o unrhyw fudd addysgol a chymharu â gwledydd eraill lle na chaiff gwisg ysgol ei gwisgo mewn ysgolion.**

*“Mae gwisg ysgol yn annog disgyblion i fod yn smart, sy'n aml yn cael ei anwybyddu y dyddiau hyn.”*

*“Rwy'n dal i'w chael hi'n anodd deall y sail resymegol dros wisg ysgol mewn addysg. Mae'n aml yn ymddangos ei bod yn gwrthdaro â llais y plentyn a'r agenda rymus honno yng Nghymru drwy fynd ati wedyn i roi gorchmynion i blant ynglŷn â'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei wisgo.”*

*“Beth am gael gwared ar wisg ysgol yn gyfan gwbl? Mae'n gweithio yn y coleg ac yn y rhan fwyaf o Ewrop”.*

*“Mae polisiâu gwisg ysgol yn hen ffasiwn ac nid oes cysylltiad rhyngddynt a deilliannau dysgu mewn gwaith ymchwil.”*

*“Fel athro Cymraeg, polisiâu gwisg ysgol yw un o'r prif bethau mae'n rhaid i mi ddelio â nhw'n ddyddiol. Yn bersonol, rwy'n teimlo bod gwisg ysgol yn hollol ddiangen gan nad yw'n cael unrhyw effaith ar gyrhaeddiad o gwbl.”*

*“Mae gwisg ysgol yn hollbwysig i sefydlu a chynnal safonau sy'n galluogi tegwch a chyraddoldeb.”*

*“Dylai polisi gwisg ysgol sicrhau bod dysgwyr yn gwisgo i lwyddo a gwisgo'n wahanol i'r ffordd y byddent yn gwisgo yn ystod amser hamdden!”*

*“Rhaid ei wneud mewn ffordd sy'n cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd a phobl ifanc a pheidio â chael ei ddefnyddio fel esgus i ysgolion fel ffordd o reoli ymddygiad. Mae ysgolion yn defnyddio gwisg ysgol fel arf ac yn troi'r staff yn heddlu gwisg ysgol (mae'n wastraff amser ac ymdrech ac mae'n ddiangen) pan ddylent fod yn paratoi ein pobl ifanc*

*ar gyfer byd dynamig a heriol sy'n newid lle nad yw gwisg unffurf yn chwarae unrhyw ran."*

*"Mae gwisg ysgol yn wastatäwr pwysig"*

*"Rwyf wedi bod i nifer o ysgolion yn Ewrop lle na chaiff gwisg ysgol ei gwisgo, heb unrhyw niwed i safonau addysgol."*

*"Er bod angen gwisg ysgol mewn perthynas â hunaniaeth yr ysgol, cydymffurfiaeth a safonau yn ogystal â'r effaith negyddol amlwg ar blant sy'n dod o gartrefi llai cefnog pe na bai gwisg ysgol – credaf fod angen cydbwysu hyn â thegwch a mynegiant creadigol i'r plentyn, a phwysigrwydd ei hunaniaeth ei hun o ran ei iechyd meddwl."*

## **Y camau nesaf**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae cynnal ymgynghoriad ar y canllawiau wedi cynnig cipolwg ar y materion sy'n peri pryder a chyfle i'w hystyried cyn cyhoeddi'r canllawiau. Caiff pob un o'r sylwadau a wnaed eu hystyried yn ofalus wrth lunio'r canllawiau terfynol.

Cred Llywodraeth Cymru y bydd y canllawiau yn rhoi cymorth clir a defnyddiol i gyrff llywodraethu wrth iddynt wneud penderfyniadau ynghylch polisiau gwisg ysgol mewn perthynas â mynediad, fforddiadwyedd a hyblygrwydd, ac y byddant yn helpu i sicrhau dulliau gweithredu cyson mewn perthynas â pholisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.

Caiff y canllawiau statudol, newydd i gyrff llywodraethu ysgolion ar bolisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a byddant yn dod i rym ym mis Medi 2019.

Y corff llywodraethu fydd yn gyfrifol am bolisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion ysgol o hyd. Bydd cyrff llywodraethu ysgolion yn ystyried canllawiau statudol newydd Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno neu adolygu eu polisi gwisg ysgol. Fodd bynnag, ni fydd gan Lywodraeth Cymru bwerau i'w gorfodi.